# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 6 MEDI 2019

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes)

Prif Swyddogion – Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Mark Owen (Cyngor Wrecsam)

Swyddogion yn bresennol Gareth Owens (Swyddog Monitro) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y Corff Atebol), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).
Ffion M Evans (Swyddog Adran 151) ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd) – eitem 6 yn unig.

## 1. YMDDIHEURIADAU

David Jones (Coleg Cambria), Judith Greenhalgh (Cyngor Dinbych), Ian Bancroft ( Cyngor Wrecsam), Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd), Dafydd Edwards (Cyngor Gwynedd) ac Iwan Evans (Cyngor Gwynedd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 5: Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan Dyfrig Siencyn, Maria Hinfelaar, Iwan Davies, Sam Rowlands, Askar Sheibani, Ian Roberts a Steve Jackson. Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Swyddog Cyfreithiol, penderfynwyd bod y datganiadau yn rai personol yn unig.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol.**

## 5. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN

Caewyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem yma gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr

unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y Corff Atebol

**PENDERFYNWYD**

**Bod chwech o'r ymgeiswyr yn gymwys i'w rhoi ar y rhestr fer**

**Bydd canolfan asesu broffesiynol yn cael ei chynnal 12.09.19**
**Byddai cyfweliadau gerbron aelodau'r Bwrdd yn cael ei cynnal 20.09.19**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Byddai tynnu rhestr fer o ymgeiswyr yn un o'r cerrig milltir allweddol yn y broses o recriwtio a phenodi unigolyn i'r swydd allweddol hon.

**6. PENAWDAU'R TELERAU**

Caewyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem yma gan fod yr adroddiad ynglŷn â drafft dogfen Penawdau Telerau Drafft Bargen Twf Gogledd Cymru sydd wedi dynodi yn ddogfen gyfrinachol gan Adran y Llywodraeth ar gyfer darpariaethau Adran 100 (A)(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gan hynny mae'n ofynnol eithrio'r adroddiad rhag ei chyhoeddi gan y byddai yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol

**PENDERFYNWYD**

**Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd yn croesawu fersiwn 3.9.19 o'r Penawdau Telerau fel arwydd cadarnhaol o ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i Gynllun Twf Gogledd Cymru**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo penawdau telerau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**